# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 26 Chwefror 2015

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 4 MAWRTH 2015** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 7 - 8)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn -

(a) cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2014 (copi wedi'i amgáu),

(b) cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2015 (copi wedi'i amgáu).

**5 FERSIWN DDIWYGIEDIG O'R COD GWISG ARFAETHEDIG GOGYFER Â GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 19 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn cyflwyno Cod Gwisg diwygiedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cerbydau Hurio Preifat i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**6 COD YMDDYGIAD DA ARFAETHEDIG AR GYFER GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 29 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn cyflwyno Cod Ymddygiad Da arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**7 AMODAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - DIWYGIADAU ARFAETHEDIG YN YMWNEUD Â GWYRO SEDDI CERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 35 - 38)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) sy'n gofyn i'r Aelodau gymeradwyo cael gwared ar amod 2.1(h) cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat sy'n ymwneud â gwyro seddi.

**8 ADOLYGU'R POLISI SEFYDLIAD RHYW** (Tudalennau 39 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) ynglŷn â newidiadau i'r drefn awdurdodi trwyddedu safleoedd sy'n darparu adloniant rhywiol.

**9 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD** (Tudalennau 43 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) sy'n argymell y dylid adolygu'r polisi masnachu ar y stryd.

**10 DEDDF GWERTHWYR METEL SGRAP 2013 - Y DIWEDDARAF AM Y POLISI ARFAETHEDIG** (Tudalennau 49 - 50)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar y cynnydd paratoi polisi delwyr metel sgrap.

**11 RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2015** (Tudalennau 51 - 52)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w gymeradwyo.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**12 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982 - CAIS AM GANIATÂD I FASNACHU AR Y STRYD** (Tudalennau 53 - 68)

Ystyried adroddiad cyfrinachol y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i Aelodau benderfynu ar gais am ganiatâd i fasnachu ar y stryd.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Cefyn Williams (Cadeirydd)
Barry Mellor (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
William Cowie
Richard Davies
Stuart Davies
Hugh Irving
Pat Jones
Win Mullen-James
Peter Owen
Arwel Roberts

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion. |

| | |
|---|---|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau.  Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod.  Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:<br><br>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.<br><br>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Mercher, 3 Rhagfyr 2014 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Bill Cowie, Win Mullen-James, Peter Owen, Arwel Roberts a Cefyn Williams (Cadeirydd)

### HEFYD YN BRESENNOL

Pen Gyfreithiwr (AL); Swyddogion Trwyddedu (NJ a JT), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (HB), Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (TWE), Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd (IM) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

### MATER RHAGARWEINIOL – ADOLYGIADAU TRWYDDED (EITEMAU RHAGLEN 8 A 9)

Cyn cychwyn y cyfarfod, mynegodd rhai aelodau amheuon bod dau adolygiad trwydded wedi'u cyflwyno i wneud penderfyniad arnynt, er gwaethaf yr achosion troseddol arfaethedig, a allai olygu eu bod yn cael eu dwyn yn ôl gerbron y pwyllgor a/neu brofi'n niweidiol mewn sefyllfa apêl. Dywedodd y Pen Gyfreithiwr bod canlyniad y prawf yn amherthnasol i raddau helaeth o gofio nad oedd y pwyllgor â'r gwaith o ystyried euogrwydd gyrwyr neu fel arall, ond a ydynt yn cael eu hystyried yn addas a phriodol i ddal trwydded ar sail yr honiadau a godwyd a'r wybodaeth a roddwyd iddynt. Ar gyfer y pwyllgor, roedd gwahanol ystyriaethau ac elfennau gwahanol iawn o'r gyfraith. Roedd yn fodlon bod gan y pwyllgor ddigon o wybodaeth i benderfynu ar yr adolygiadau trwydded. O ran y mater yn cael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor, byddai natur unrhyw gollfarn yn yr achos hwn yn arwain at swyddogion yn penderfynu ar y mater dan awdurdod dirprwyedig. Roedd gan yr aelodau farn gymysg ynghylch a ddylai'r mater symud ymlaen at wrandawiad ar hyn o bryd, ac yn dilyn trafodaeth, cytunodd y pwyllgor i ohirio ystyried y ddau adolygiad trwydded wrth aros am ganlyniad yr achos troseddol. Cytunwyd hefyd bod cyfarfod arbennig o'r pwyllgor yn cael ei gynnull cyn gynted â phosibl wedi hynny i benderfynu ar addasrwydd y deiliaid trwydded.

Mynegwyd penderfyniad y pwyllgor ar wahân i'r gyrwyr trwyddedig dan sylw. Nododd y Cadeirydd ddadleuon yn erbyn yr oedi a gyflwynwyd gan gynrychiolydd cyfreithiol Gyrrwr rhif 047857, ond gwrthododd ei chais i symud ymlaen gydag adolygiad cyn i ganlyniad y prawf fod yn hysbys. Nodwyd hefyd bod cais i ohirio yn yr achos hwn wedi'i wneud gan gynrychiolydd cyfreithiol Gyrrwr Rhif 047689.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Joan Butterfield, Richard Davies, Stuart Davies, Hugh Irving, Pat Jones a Barry Mellor

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 24 Medi 2014.

**Cywirdeb –** Rhoddodd y Cynghorydd Peter Owen wybod nad oedd ei ymddiheuriadau am absenoldeb wedi'u cofnodi yn y cofnodion.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2014 fel cofnod cywir.*

## 5 AMODAU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT – NEWIDIADAU ARFAETHEDIG SY'N YMWNEUD Â THIPIO SEDDAU

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi manylion am gynigion i ddiwygio amodau yn ymwneud â thipio seddau mewn cerbydau trwyddedig.

Esboniodd y Swyddogion y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig i gael gwared ar amod 2.1(h) yn ymwneud â thipio seddi mewn cerbydau hurio preifat, er mwyn caniatáu pobl i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd yn dilyn y canllaw Adran Drafnidiaeth diweddaraf (yn amgaeedig i'r adroddiad hwn), a phryderon a godwyd gan weithredwyr. Yn sgil effaith fflyd cerbydau hacni a manylebau cerbydau gwahanol, argymhellwyd y dylid adolygu manyleb cerbydau hacni, a bod y canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol er ystyriaeth aelodau.

Ystyriodd yr Aelodau ganllaw yr Adran Drafnidiaeth, ac fe wnaethant hefyd nodi bod yr holl geisiadau cerbydau hurio preifat blaenorol a gyflwynwyd i'r pwyllgor oherwydd nad oeddent yn bodloni amod 2.1(h), wedi'u cymeradwyo. O ran amserlen ar gyfer yr adolygiad o fanyldeb cerbydau hacni arfaethedig, dywedodd swyddogion am eu bwriad i ddechrau'r broses ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor cyn gynted â phosibl.

***PENDERFYNWYD*** *bod -*

*(a)* *cynigion i gael gwared ar amod 2.1(h) a gynhwysir yn Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat yn ymwneud â thipio seddi'n cael eu cefnogi, a bod ymgynghoriad ffurfiol yn dechrau gyda phob deiliad trwydded wedi hynny, a*

*(b)* *bod adolygiad o fanyleb cerbyd hacni yn ymwneud â chael gwared ar yr amod yn ymwneud â thipio seddi'n cael ei gynna,l a bod y canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol o'r pwyllgor er ystyriaeth.*

**6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2014/15**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) yn manylu ar fân newidiadau i raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu ers ei chymeradwyo ym Mawrth 2014.

Rhoddodd y Swyddogion wybod am y gwaith a wnaed yn dilyn archwiliad mewnol o weithdrefnau trwyddedu tacsis er mwyn gwella gwiriadau cefndir ar gyfer trwyddedu tacsis, ynghyd â deddfwriaeth newydd yn gofyn am adolygiad o'r Polisi Sefydliad Rhyw. Nododd yr Aelodau effaith y gofynion hynny ar y rhaglen gwaith ac awgrymasant newidiadau i'r rhaglen gwaith o ganlyniad. Felly -

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad yn cael ei nodi, a bod y newidiadau arfaethedig i'r rhaglen gwaith fel y manylir ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad, yn cael eu cymeradwyo.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 14/0985/TXJDR**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) chais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 14/0985/TXJDR am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) nid yw swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais oherwydd croniad yr Ymgeisydd o 10 pwynt cosb dilys ar y Drwydded Gyrwyr DVLA hon;

(iii) crynodeb o'r ardystiadau moduro, ynghyd â manylion am hanes blaenorol yr Ymgeisydd fel gyrrwr trwyddedig;

(iv) polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a

(v) gofynnwyd i'r Ymgeisydd fod yn bresennol mewn cyfarfod i gefnogi ei gais ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) grynodeb o'r adroddiad a dywedodd nad oedd yr Ymgeisydd yn bresennol, ond gweithiodd yn rheolaidd i ffwrdd oddi cartref, a allai egluro ei absenoldeb.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD** bod y cais am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan ymgeisydd rhif 14/0985 / TXJDR yn cael ei ganiatáu, gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.*

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Nododd y pwyllgor fath a natur y collfarnau moduro a gronnwyd gan yr Ymgeisydd, ynghyd â'i hanes blaenorol, ac ar y sail honno ystyrir iddo fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Fodd bynnag, yn wyneb nifer y pwyntiau cosb a gronnwyd, ystyriwyd ei fod hefyd yn briodol bod rhybudd ffurfiol yn cael ei gyhoeddi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**8 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 047689**

Gwnaethpwyd cais ysgrifenedig i ohirio ar ran Gyrrwr Rhif 047689. Er gwaethaf y cais hwnnw, ystyriwyd bod y mater yn mater rhagarweiniol yn union cyn y cyfarfod, ac roedd Gyrrwr Rhif 047689 wedi cael gwybod am y canlyniad. O ganlyniad, dyma a wnaeth yr aelodau -

***PENDERFYNU** oedi ynghylch adolygu trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Gyrrwr Rhif 047689, tra arhosir am ganlyniad yr achos troseddol yn yr achos hwn.*

**9 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 047857**

Roedd y pwyllgor wedi ystyried a ddylid bwrw ymlaen ai peidio â'r adolygiad trwydded fel mater rhagarweiniol yn union cyn y cyfarfod. Roedd y penderfyniad i ohirio'r mater wedi cael ei gyfleu i Yrrwr Rhif 047857 a'i gynrychiolydd cyfreithiol, a oedd wedi dadlau o blaid clywed yr adolygiad. Roedd y cais i fynd ymlaen â'r gwrandawiad adolygu ar y cyfnod hwn wedi’i wrthod. O ganlyniad, fe wnaeth yr aelodau -

***PENDERFYNU** oedi ynghylch adolygu trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Gyrrwr Rhif 047857, tra arhosir am ganlyniad yr achos troseddol yn yr achos hwn.*

**10 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 048126**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 048126 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) roedd cwyn wedi cael ei gwneud yn erbyn Gyrrwr Rhif 048126 ar 23 Medi 2014, yr ymchwiliwyd iddi gan Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu (mae

crynodeb o’r ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion a dogfennau cysylltiedig wedi eu hatodi i’r adroddiad);

(iii) bod y Gyrrwr wedi cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod tra adolygir ei drwydded er mwyn gallu ateb cwestiynau’r aelodau ynglŷn â hynny.

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol (TWE) yr adroddiad a chadarnhaodd nad oedd yr Ymgeisydd yn bresennol, er iddo gael ei wahodd i fod yn bresennol. Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i holi cwestiynau gyda'r swyddogion ynghylch ffeithiau'r achos, a gofynnwyd am eglurhad ar nifer o faterion.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD*** *diddymu Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Gyrrwr Rhif 048126 ar sail diogelwch y cyhoedd ar unwaith.*

Dyma oedd y rhesymau ynghylch penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Fe wnaeth y pwyllgor ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ofalus, gan gynnwys natur y gŵyn a'r defnydd o'r cerbyd hacni. Canfu yr Aelodau bod y Gyrrwr wedi ymddwyn yn amhriodol ac wedi torri ei safle o ymddiriedaeth fel gyrrwr tacsi, ac felly ystyriwyd nad oedd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Yn ogystal, ystyriodd y pwyllgor fod ei weithredoedd wedi dod ag anfri ar y Cyngor. Yn sgil natur a difrifoldeb y digwyddiad, ni allai’r aelodau fod yn sicr parthed diogelwch y cyhoedd, a phenderfynodd y pwyllgor ddiddymu’r drwydded ar sail diogelwch y cyhoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.35 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 12 Ionawr 2015 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Hugh Irving, Barry Mellor, Peter Owen, Arwel Roberts a Cefyn Williams (Cadeirydd)

### HEFYD YN BRESENNOL

Pen Gyfreithiwr (AL); Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd (IM); Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (HB), Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (TWE), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Win Mullen-James a Pat Jones

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

### 4 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 047857

[Dygwyd yr eitem hon yn ei blaen o fewn trefn y rhaglen gyda chydsyniad y Cadeirydd]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 047857 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) honiad o ymosodiad wedi cael ei wneud yn erbyn Gyrrwr Rhif 047857 ar 11 Awst 2014, yr ymchwiliwyd iddo gan Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu

(mae crynodeb o’r ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion a dogfennau cysylltiedig wedi eu hatodi i’r adroddiad);

(iii) y Pwyllgor Trwyddedu ar 3 Rhagfyr 2014 wedi gohirio ystyried addasrwydd y Gyrrwr, wrth aros am ganlyniad achos troseddol yn yr achos hwn (manylion a oedd wedi’u hatodi fel adroddiad atodol), a

(iv) bod y Gyrrwr wedi cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod tra adolygir ei drwydded er mwyn gallu ateb cwestiynau’r aelodau ynglŷn â hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod yng nghwmni ei gynrychiolydd cyfreithiol a'i gyflogwr. Yn dilyn cyflwyniadau, cadarnhaodd y Gyrrwr ei fod wedi cael yr adroddiad a gweithdrefnau’r pwyllgor. Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu'r (HB) adroddiad a manylodd ar ffeithiau’r achos. Dangoswyd recordiad TCC o'r digwyddiad a oedd yn destun yr adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu, ac fe gafodd ei ailchwarae nifer o weithiau trwy gydol y gwrandawiad ar gais yr aelodau.

Cyflwynodd cynrychiolydd cyfreithiol y Gyrrwr nifer o eirdaon ysgrifenedig yn cadarnhau cymeriad da ei chleient, a dywedodd ei fod wedi bod yn gweithio fel gyrrwr tacsi heb ddigwyddiadau blaenorol. Esboniodd yr amgylchiadau ynghylch ple ei chleient yn Llys yr Ynadon, a'i barodrwydd i dderbyn ei ran yn y digwyddiad a chymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd. Mewn camau lliniaru pellach, fe fanylodd ar fersiwn ei chleient o’r digwyddiadau yn arwain at y digwyddiad, ac yn ystod y digwyddiad a oedd ar y TCC, ynghyd â'i edifeirwch gwirioneddol. Wrth ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, tynnodd sylw at nifer o anghysondebau yn natganiadau’r tystion a roddwyd, gan ddadlau yn erbyn hygrededd y tystion hynny na ellid dibynnu arnynt. O ganlyniad, roedd hi'n dadlau, o ystyried amgylchiadau'r achos, bod ymateb ei chleient yn ddealladwy, er bod hynny’n groes i’w gymeriad yn llwyr, a’i fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded tacsi.

Holodd Aelodau gwestiynau i'r Gyrrwr ynghylch ei fersiwn ef o ddigwyddiadau, gan gynnwys ei farn am y digwyddiad a chanlyniad yr achos troseddol yn yr achos hwn. Fe wnaeth y Gyrrwr gydnabod bod ei ymddygiad wedi bod yn annerbyniol, gan fynegi ei ofid dwfn am y digwyddiad ac ymddiheurodd yn llaes. Roedd gan y Gyrrwr gefnogaeth lawn ei gyflogwr a siaradodd ar ei ran ac ymatebodd i gwestiynau ynghylch ei gyflogaeth, a chadarnhau ei fod yn weithiwr gwerthfawr. Cyfeiriodd hefyd at ei rwystredigaeth ynghylch elfennau o fasnach tacsis y Rhyl yn gyffredinol, sy’n peri tensiwn ac i yrwyr trwyddedig anghytuno â’i gilydd.

Gwnaeth y cynrychiolydd cyfreithiol ddatganiad terfynol yn crynhoi ei chyflwyniadau cynharach a oedd yn tystio i gymeriad da ei chleient, gan dynnu sylw at y sefyllfa eithafol a wynebodd, a’i ofid diffuant a’i barodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd. Fe apeliodd i’r pwyllgor i beidio â thynnu ei drwydded oddi arno, gan ddadlau nad oedd unrhyw sail gyfreithiol i atal neu ddirymu yn yr achos hwn.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PHENDERFYNWYD*** *rhoi rhybudd ffurfiol i Yrrwr Rhif 047857 ynglŷn â difrifoldeb y digwyddiad a’i ymddygiad yn y dyfodol.*

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Yn ystod trafodaethau, ystyriodd yr aelodau ddifrifoldeb y digwyddiad ac er bod pryderon difrifol dros ymddygiad y Gyrrwr yn yr achos hwn, derbyniwyd ei fersiwn ef o'r digwyddiadau a'r camau lliniaru gan y Pwyllgor Trwyddedu, ac fe'i ystyriwyd yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y Gyrrwr yn wylaidd a wirioneddol yn edifar am y gweithredoedd y cymrodd cyfrifoldeb amdanynt. Ystyriwyd y geirdaon a oedd yn cadarnhau cymeriad da a gwasanaeth gwerthfawr y Gyrrwr hefyd. Fodd bynnag, er bod hynny'n ddealladwy, roedd yr ymddygiad a ddangoswyd gan y Gyrrwr tra roedd ar ddyletswydd yn amlwg yn annerbyniol ac wedi dwyn anfri ar y Cyngor. O ganlyniad, cytunwyd i roi rhybudd ffurfiol i'r Gyrrwr ynghylch difrifoldeb y digwyddiad ac ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr a'i gynrychiolydd cyfreithiol.

## 5 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 047689

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 047689 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) honiad o ymosodiad wedi cael ei wneud yn erbyn Gyrrwr Rhif 047689 ar 11 Awst 2014, yr ymchwiliwyd iddo gan Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu (roedd crynodeb o'r ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion a dogfennau cysylltiedig wedi eu hatodi i'r adroddiad);

(iii) y Pwyllgor Trwyddedu ar 3 Rhagfyr 2014 wedi gohirio ystyried addasrwydd y Gyrrwr, wrth aros am ganlyniad achos troseddol yn yr achos hwn (manylion a oedd wedi'u hatodi fel adroddiad atodol), a

(iv) gofynnwyd i'r Gyrrwr fod yn bresennol mewn cyfarfod i gefnogi ei adolygiad trwydded ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod ac yn dilyn cyflwyniadau, cadarnhaodd ei fod wedi cael yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor. Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu'r (HB) adroddiad a manylodd ar ffeithiau'r achos. Dangoswyd recordiad TCC o'r digwyddiad a oedd yn destun yr adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu, ac fe gafodd ei ailchwarae nifer o weithiau trwy gydol y gwrandawiad ar gais yr aelodau.

Fel cam lliniaru, cyflwynodd y Gyrrwr ddatganiad ysgrifenedig gan ei Gyfreithwyr a oedd yn cynnwys cyfeiriad at ganlyniad yr achos troseddol yn yr achos hwn ac amgylchiadau'r drosedd. O ystyried y manylion hynny, ynghyd â'r amser ers y digwyddiad pan oedd y gyrrwr wedi parhau i yrru tacsis, byddai dirymu trwydded y

Gyrrwr yn anghyfiawn yn yr achos hwn. Hefyd, eglurodd y Gyrrwr ei fersiwn ef o'r digwyddiadau yn arwain at y digwyddiad ac fe siaradodd am y recordiad TCC gyda'r aelodau, gan wadu'r honiad o ymosod a phwysleisio ei fod yn ddieuog o unrhyw drosedd.

Holodd yr Aelodau'r Gyrrwr ynghylch y dystiolaeth a gyflwynwyd a'i ymddygiad cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad. Ymatebodd y Gyrrwr i gwestiynau'r aelodau a gwadodd yr honiad o ymosod ond mynegodd ofid dros wrthdaro â'r ymosodwr ac ymhelaethodd ymhellach ar ei fwriadau a'r gweithredoedd yn ystod y digwyddiad. Wrth fynegi ei edifeirwch, fe wnaeth y Gyrrwr gydnabod sut y byddai'r digwyddiad yn cael ei ystyried gan y cyhoedd ac fe dderbyniodd hefyd y dylai wedi delio â'r sefyllfa'n wahanol. Cyfeiriodd at ei awydd i barhau â'i broffesiwn fel gyrrwr tacsi a rhoddodd sicrwydd pendant ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Yn ei ddatganiad terfynol, dywedodd y Gyrrwr ei fod yn mwynhau ei swydd ac yn dda yn ei swydd, ac apeliodd i'r pwyllgor i beidio â dirymu ei drwydded.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD** bod Gyrrwr Rhif 047689 yn cael ei rybuddio ynghylch difrifoldeb y digwyddiad ac y caiff rhybudd ysgrifenedig terfynol ei gyhoeddi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.*

[Roedd y Cynghorydd Stuart Davies am i nodyn gael ei wneud iddo bleidleisio yn erbyn y penderfyniad uchod.]

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth ofalus i'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd a datganiadau'r Gyrrwr i gefnogi ei achos, a'i atebion i'r cwestiynau. Ystyriwyd bod y Gyrrwr wedi achosi'r digwyddiad ac roedd aelodau yn feirniadol iawn o'i ymddygiad a oedd wedi dwyn anfri ar y Cyngor. Codwyd pryderon hefyd fod y Gyrrwr wedi cael ei ddwyn gerbron y pwyllgor yn flaenorol, yn ymwneud â materion ymddygiad. Wrth asesu addasrwydd y Gyrrwr fel gyrrwr trwyddedig, ystyriodd yr aelodau bod elfennau o'r recordiad TCC yn amhendant, ond roedd y Gyrrwr wedi cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am y digwyddiadau. Cydnabuwyd hefyd ei fod wedi parhau i yrru ers hynny heb ddigwyddiad ac wedi mynegi edifeirwch am ei weithredoedd. O ganlyniad, penderfynodd yr aelodau i roi rhybudd terfynol fod y Gyrrwr mewn perygl o golli ei drwydded os bydd unrhyw droseddau yn y dyfodol.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr.

[Yn ystod y cyfarfod, cafodd datganiad ei gyflwyno ynglŷn â chyflwr y diwydiant tacsis yn Sir Ddinbych a gofynnodd y Cadeirydd i swyddogion trwyddedu edrych i mewn i'r materion a godwyd, a rhoi ymateb i'r pwyllgor arno.]

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Mawrth 2015 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Fersiwn Ddiwygiedig o'r Cod Gwisg Arfaethedig gogyfer â Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Cyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'r Cod Gwisg gogyfer â Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i'w ystyried a'i gymeradwyo gan yr Aelodau.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Er mwyn i Aelodau ystyried cymeradwyo fersiwn ddiwygiedig o'r cod gwisg gogyfer â gyrwyr trwyddedig er mwyn galluogi gyrwyr trwyddedig i roi'r ddelwedd broffesiynol sy'n cyd-fynd ag anghenion cwsmeriaid a'r Sir.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Swyddogion wedi cyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'r cod gwisg gogyfer â gyrwyr yn y cyfarfod ym mis Medi 2014. Penderfynodd yr Aelodau awdurdodi Swyddogion i ddechrau ymgynghoriad ffurfiol ar y fersiwn ddiwygiedig arfaethedig o'r cod gwisg gogyfer â gyrwyr ac i adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

3.2 Ers i'r mater gael ei drafod yn y cyfarfod ym mis Medi, mae Swyddogion wedi ymgynghori gyda'r holl ddeiliaid trwydded ar y cod gwisg arfaethedig. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, derbyniwyd un ymateb ysgrifenedig sydd i'w weld isod:

*"Rwy'n croesawu'r cod gwisg yr ydych wedi ei gyflwyno ond yn bersonol nid wyf yn credu ei fod yn mynd yn ddigon pell; hoffwn nodi y dylai trowsus byr o unrhyw fath gael eu gwahardd yn gyfan gwbl. Mae fy rhesymau dros hyn fel a ganlyn; yn gyntaf oll, y*

*rhan fwyaf o'r amser mae'r trowsus byr sy'n cael eu gwisgo yn ddiolwg iawn a hefyd mae llawer o yrwyr yn hoffi dangos eu tatŵs. Rwyf yn sicr nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol am weld hyn. Fy rheswm arall yw y dylech sefydlu model yn seiliedig ar y gyrwyr coetsys a gyrwyr bysus Arriva sydd bob amser yn gwisgo'n smart. Hefyd, mae angen ystyried hylendid personol, gan fod rhai gyrwyr ag aroglau drwg iawn. Rwyf wedi clywed bod un cwsmer angen cawod ar ôl cael ei gludo gan un Gyrrwr Tacsi yn y Rhyl. Hefyd, mae angen i chi ystyried a yw'r gyrwyr wedi'u heillio'n lân neu os oes ganddynt farf llawn, ei fod yn cael ei gadw'n daclus. Rwy'n gobeithio bod yr awgrymiadau hyn o ddefnydd i chi"*

3.3 Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig gyda'r holl ddeiliaid trwydded, trefnodd Swyddogion sesiwn gweithdy a gwahoddwyd bob deiliad trwydded. Allan o tua 400 o ddeiliaid trwydded, mynychodd 6 y sesiwn gweithdy. Er bod y ffigurau presenoldeb ychydig yn siomedig, roedd bob deiliad trwydded a fynychodd yn cymryd rhan yn llawn ac roedd Swyddogion yn gwerthfawrogi eu cyfraniad.

3.4 Fel rhan o'r sesiwn gweithdy, bu Swyddogion yn paratoi dogfen gyfiawnhad, a drafodwyd, fesul pwynt, yn helaeth. Mae'r ddogfen i'w gweld yn Atodiad A. Er gwybodaeth i'r Aelodau, mae colofn arall wedi ei hychwanegu at y ddogfen i nodi'r holl sylwadau a wnaed yn y gweithdy.

3.5 Mae'r farn a'r sylwadau a wnaed gan ddeiliaid trwyddedau wedi eu hystyried yn llawn a lle teimlwyd bod angen diwygio'r cod gwisg arfaethedig, roedd y penderfyniad i'w ddiwygio, yn y rhan fwyaf o achosion, yn unfrydol

3.6 Gellir gweld fersiwn Ddiwygiedig y Cod Gwisg Arfaethedig gogyfer â Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn Atodiad B.

3.7 Pe bai'r Aelodau'n penderfynu cymeradwyo'r Cod Gwisg gogyfer â Gyrwyr, bwriedir ei weithredu o 1 Mai 2015.

3.8 Bydd y Polisi a'r Weithdrefn Pwynt Cosb presennol yn cael eu rhoi ar waith i orfodi o ran unrhyw achosion o dorri'r Cod Gwisg gogyfer â Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Aelodau i ystyried cymeradwyo'r Cod Gwisg diwygiedig gogyfer â Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn Atodiad B, ac wrth wneud hynny, cytuno i ddisodli'r Cod Gwisg presennol yn y "Llyfr Glas".

4.2 Gweithredu'r Cod Gwisg o 1 Mai 2015.




**APPENDIX A**

# LICENSED DRIVER PROPOSED DRESS CODE WORKSHOP



The Council's objective in establishing a dress code is to enable our licensed drivers to project the professional image that is in keeping with the needs of customers and the county.

## A few interesting facts

A good standard of dress for everyone in the licensed trade may give customers a favorable impression of you and your company.

First impressions are often long lasting. Like it or not, your appearance is the first thing that people see. Assumptions are often made about your ability to provide a high level of service, based on the way you're dressed. When you dress appropriately, you send a message to your customers that you're a capable driver.

.

***A person can accept you or reject you in the first 30 seconds, based on appearance alone. Studies show inappropriate dressing or grooming causes 40 percent of job rejection.***

| No | Unacceptable Standard of Dress | Reasons | Comments made at workshop together with proposed changes |
|---|---|---|---|
| 1 | Bare chests, to include low cut tops | it could potentially make the driver vulnerable and open to inappropriate remarks and | All attendees in agreement – no changes proposed |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | abuse. It could also be embarrassing to customers. | |
| 2 | Clothing or footwear which is unclean or damaged | The clothes a person wears to work affects how you are perceived by customers. This doesn't mean every driver needs to spend a fortune on a wardrobe. Dressing appropriately means choosing clothes that convey an image of being serious about your job. | All attendees in agreement – no changes proposed |
| 3 | Clothing printed with words, logo or graphics which might offend | Logo's and graphics which may seem acceptable by the person who is wearing it, may offend others. As licensed drivers are providing a service to the public they must consider the public interests. | All attendees in agreement – no changes proposed |
| 4 | Sports shirts e.g. football, or rugby or cricket tops or track suits | An appropriate dress code helps you (and your business) establish standards that every driver can easily follow. Dressing in appropriate attire enables you (and your company) to project a professional image, sending a message that you're trustworthy and knowledgeable. | Lengthy discussion took place on this point – it was agreed that sport shirts could potentially cause conflict between driver and passenger. It was therefore supported – no changes proposed |
| 5 | No beachwear including footwear eg flipflops, mules | Driving in flip flops or sandals or a similar design is by far the most dangerous footwear to drive in. Pedals can easily get caught between the sole of your foot and the flip flop leading to a reduction of control of the vehicle and an increase in the amount of time it takes to brake. Flip flops can easily fall off whilst driving and get caught between or under the pedals. The focus of the driver is then to locate the flip flop , taking the attention off the | Again, this point was discussed at length and it was suggested that "beachwear" needs to be clarified. It is therefore proposed to change this item to:<br><br>No beachwear including footwear eg flipflops, mules, swim/beach shorts, bathing costumes/sleeveless vest tops etc |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | road.<br>Driving in flip flops is a cause of road accidents.<br><br>The Highway Code states you must not wear footwear that prevents you from using the foot controls in the correct manner | |
| 6 | No pronounced heels | Dangers associated with driving in high heel shoes or boots can be the heel getting caught in the floor carpet or mat just as you are going to brake, therefore impeding reaction time or preventing the brake being pressed altogether. Driving in high heels can also be dangerous due to the heel of the foot not resting on the floor of the car. Having the heel of your foot resting on the car floor allows a driver to move from the accelerator to the brake faster and easier and to apply pressure on the pedals. Driving in high heels can slow a drivers reaction down | All attendees in agreement – no changes proposed |
| 7 | Headgear that partially or completely conceals the face or the identity of the licensed driver e.g. baseball caps | The wearing of headgear is unacceptable as the identity of a driver can be concealed. Some headgear also looks unprofessional. Religious headgear is exempt from this restriction. | Lengthy discussion on this item. Licensees felt quite strongly that when they were waiting for a fare/customer/ assisting them with luggage etc, especially during cold weather, that they should be allowed to wear headgear. It was accepted that it was not appropriate to wear headgear whilst carrying passengers.<br>It is therefore proposed to make the following changes:<br><br>Whilst passengers are in the vehicle, no headgear that partially or completely conceals the face or |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | the identity of the licensed driver shall be worn e.g. baseball caps/wooly hats (to also include hooded tops and “hoodies”). Religious headgear or wearing headgear for medical reasons is exempt (doctor’s note may be required) |
| 8 | Shorts above the knee | The wearing of shorts above the knee is not appropriate for a couple of reasons **1**. It may send the wrong impression to your customers which could put you at risk of abuse **2**. Customers may feel uncomfortable and embarrassed | All attendees in agreement – no changes proposed |
| 9 | Hoodies | The wearing of hoodies is seen as being scruffy and unprofessional | Lengthy discussion took place again over this proposal. It was suggested that the wearing of hoodies was no different to wearing any other type of headgear and this item should be incorporated with number 7 above.<br><br>It is therefore proposed to include hooded tops in number 7 above and to remove number 9 from the dress code. |
| 10 | Short/miniskirts are not to be worn for personal safety reasons | The wearing of short/miniskirts is not appropriate for a couple of reasons 1. It may send the wrong impression to your customers which could put you at risk of abuse 2. Customers may feel uncomfortable and embarrassed. | All attendees in agreement – no changes proposed |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Round neck t-shirts | Your style of dress sends a message to your potential customers. For example, if you greet your customers in a round neck t-shirt and jeans, you may be sending your customers a message of incompetence. | Lengthy discussion took place over this proposal. Licence holders disagreed strongly with the justification for point 11, arguing the point that you can get expensive round neck t-shirts that look presentable whereas you can get cheap polo t-shirts (with a collar) that can look quite shabby after a very short length of time.<br><br>It is therefore proposed to the following changes:<br><br>To remove number 11 from the Dress Code . |

Have you considered introducing branded workwear within your workforce?  You could be entitled to a tax rebate.  For further details visit the hmrc.gov.uk website



UNIFORM
TAX REBATE

**APPENDIX B**

# DRESS CODE FOR HACKNEY CARRIAGE AND PRIVATE HIRE DRIVERS

1. The Council is committed to encouraging the professional image of the licensed trade. The Council considers that drivers should conform to a minimum standard of dress, as set out below, in order to:

   a. raise and maintain the profile of the licensed trade;
   b. promote confidence amongst members of the public to ensure passengers feel comfortable when using licensed vehicles;
   c. promote public safety by ensuring the safe operation of licensed vehicles at all times and ensuring that licensing drivers are readily identifiable.
   d. protect the licensed driver from any abuse or harm

2. The Council does not impose such standards by way of conditions to any licence. It is expected, however, that such standards will be maintained at all times.

3. Breaches of the Dress Code for Licensed Drivers will be dealt with by use of the Penalty Point Policy and Procedure.

4. **ACCEPTABLE STANDARD OF DRESS WITHIN THIS CODE**

4.1 **Tops**

   i. All tops should cover the shoulders and midriff and be capable of being worn inside trousers/skirts/shorts.
   ii. Shirts or blouses can be worn with a tie or open-necked.

4.2 **Skirts/Shorts**

   i. Skirts should be to the knee or below.
   ii. Shorts may be worn if tailored and to the knee or below.

4.3 **Footwear**

   i. Footwear should fit around the heel of the foot.
   ii. No footwear should be worn that prevents you from using the foot controls in the correct manner

5. **UNACCEPTABLE STANDARDS OF DRESS WITHIN THIS CODE**

   a. Bare chests, to include low cut tops;
   b. Clothing or footwear which is unclean or damaged;
   c. Clothing printed with words, logo or graphics which might offend;
   d. Sports shirts e.g. football, or rugby or cricket tops or track suits;
   e No beachwear including footwear eg flipflops, mules, swim/beach shorts, bathing costumes etc
   f. No pronounced heels
   g. Whilst passengers are in the vehicle, no headgear that partially or completely conceals the face or the identity of the licensed driver shall be worn e.g. baseball caps, woolly hats (to also include hooded tops and “hoodies”). Religious headgear or wearing headgear for medical reasons is exempt (doctor’s note may be required);
   h. Shorts above the knee

i. Short/miniskirts are not to be worn for personal safety reasons

6. The above lists are not exhaustive and Authorised Officers of the Council will assess whether standards of dress are acceptable or not. In such instances, the Officer’s decision will have effect as though it were included in the above lists and the licensed drivers will be required to comply accordingly.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Mawrth 2015 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Cod Ymddygiad Da Arfaethedig ar gyfer Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Cyflwyno Cod Ymddygiad Da arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i'r Aelodau ei ystyried.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried cymeradwyo Cod Ymddygiad Da ar gyfer gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i wella'r safonau ymhellach.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol i'r Swyddogion gyflwyno Cod Ymddygiad Da arfaethedig ar gyfer Gyrrwr mewn cyfarfod ym mis Medi 2014. Penderfynodd yr Aelodau awdurdodi'r Swyddogion i ddechrau ymgynghori'n ffurfiol ynglŷn â'r cod arfaethedig ar gyfer gyrwyr ac adrodd yn ôl mewn cyfarfod diweddarach ynglŷn â chanlyniad yr ymgynghoriad .

3.2 Ers trafod y mater yn y cyfarfod ym mis Medi, mae'r Swyddogion wedi ymgynghori gyda'r holl ddeiliaid trwydded ynglŷn â'r Cod Ymddygiad Da arfaethedig. Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad.

3.3 Yn ogystal ag ymgynghori'n ysgrifenedig â'r holl ddeiliaid trwydded, trefnodd y Swyddogion sesiwn gweithdy gan wahodd pob deiliad trwydded iddi. O blith tua 400 o rai sydd â thrwydded, 6 a fynychodd y sesiwn gweithdy. Er i'r ffigurau presenoldeb fod braidd yn siomedig, cafodd pob deiliad trwydded a fynychodd eu cynnwys yn llawn ac roedd y Swyddogion yn gwerthfawrogi eu cyfraniad.

3.4 Yn ystod y sesiwn gweithdy, bu’r Swyddogion a’r deiliaid trwydded yn trafod pob adran o'r Cod Ymddygiad Da, a chytunwyd nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau.

3.5 Gellir gweld y Cod Ymddygiad Da arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn Atodiad A.

3.6 Pe bai’r Aelodau'n penderfynu cymeradwyo’r Cod Ymddygiad Da ar gyfer Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, byddai bwriad i’w weithredu o 1 Mai 2015.

3.7 Bydd y Polisi a'r Weithdrefn Pwyntiau Cosb presennol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn gorfodi unrhyw achosion o dorri’r Cod Ymddygiad Da ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod yr Aelodau’n ystyried cymeradwyo’r Cod Ymddygiad Da ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat sydd i’w weld yn Atodiad A, ac yn cymeradwyo 1 Mai 2015 fel y dyddiad ar gyfer gweithredu’r cod.

**ATODIAD A**

## COD YMDDYGIAD DA AR GYFER GYRWYR TRWYDDEDIG

Er mwyn hyrwyddo ei amcanion trwyddedu mewn perthynas â cherbydau hacni a cherbydau hurio preifat, mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu mabwysiadu'r Cod Ymddygiad Da canlynol, y dylid ei ddarllen ar y cyd â'r gofynion statudol a’r gofynion polisi eraill a gynhyrchir gan y Cyngor.

### 1. CYFRIFOLDEB I'R FASNACH

Bydd deiliaid trwydded yn ymdrechu i hyrwyddo delwedd y fasnach Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat trwy:

(a) gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Da hwn;
(b) gydymffurfio â phob un o Amodau eu Trwydded, gydag Is-ddeddfau Cerbydau Hacni a chyda Pholisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor;
(c) ymddwyn mewn modd sifil, trefnus, anwahaniaethol a chyfrifol ar bob achlysur

### 2. CYFRIFOLDEB I DEITHWYR

Bydd deiliaid trwydded:

(a) yn cynnal eu cerbydau mewn cyflwr diogel a boddhaol ar bob achlysur;
(b) yn cadw eu cerbydau’n lân ac yn addas i'w hurio i'r cyhoedd ar bob achlysur;
(c) yn mynychu’n brydlon pan fyddant yn ymgymryd â huriad a archebwyd ymlaen llaw;
(d) yn rhoi cymorth i deithwyr i fynd i mewn ac allan o gerbydau pan fo angen;
(e) yn cynnig rhoi cymorth rhesymol i deithwyr â’u bagiau ac eiddo personol arall
(f) pan ofynnir iddynt, yn rhoi derbynebau i deithwyr
(g) yn ymwrthod ag unrhyw gysylltiad rhywiol, ac yn peidio â bod yn rhywiol echblyg, naill ai'n gorfforol nac ar lafar, tuag at unrhyw deithiwr y maent yn eu cludo
(h) yn ymddwyn mewn modd proffesiynol a pharchus ar bob achlysur

### 3. CYFRIFOLDEB I BRESWYLWYR

Er mwyn osgoi peri niwsans i breswylwyr wrth gasglu neu aros am deithwyr, bydd y gyrrwr yn:

(a) ymwrthod rhag seinio corn y cerbyd yn anghyfreithlon (Mae rheol 112 Rheolau'r Ffordd Fawr yn datgan na ddylid seinio’r corn pan fo’r cerbyd yn llonydd ar ffordd (ar unrhyw adeg), neu wrth yrru mewn ardal adeiledig rhwng 11:30 pm a 7:00 am);
(b) cadw sain chwaraewyr cyfryngau cerddoriaeth / radio yn isel;
(c) diffodd yr injan os oes angen aros;
(d) gweithredu ym mha bynnag fodd sy’n angenrheidiol yn ychwanegol at hyn er mwyn osgoi aflonyddu ar drigolion yn y gymdogaeth

#### 4. CYFRIFOLDEBAU MEWN RHENGOEDD A SWYDDFEYDD

Bydd deiliaid trwydded:

(a) yn ffurfio rhes drefnus ac yn symud ar ei hyd yn brydlon ac mewn trefn
(b) yn aros yn y cerbyd
(c) yn sicrhau nad ydynt yn caniatáu i'w chwaraewyr cyfryngau cerddoriaeth neu setiau radio achosi aflonyddwch i drigolion

#### 5. CYFFREDINOL

Bydd gyrwyr:

(a) yn talu sylw i hylendid a gwisg bersonol, yn unol â'r cod gwisg, er mwyn cyflwyno delwedd broffesiynol i'r cyhoedd;

(b) yn gwisgo'r bathodyn a ddarperir gan y Cyngor ar ei berson ar bob adeg pan fyddant yng ngofal cerbyd trwyddedig, a dylid gwisgo bathodyn o'r fath mewn safle ac mewn modd sy’n golygu ei fod yn amlwg;

(c) yn gwrtais, yn gymwynasgar ac yn deg gyda theithwyr;

(d) oni chânt gyfarwyddyd i’r gwrthwyneb gan y llogwr, yn gyrru i ben y daith gan ddilyn y llwybr byrraf posibl;

(e) yn ymwrthod rhag yfed neu fwyta yn y cerbyd heb ganiatâd penodol y llogwr;

(f) oni cheir caniatâd penodol y llogwr, yn ymwrthod â chwarae unrhyw radio neu offeryn neu gyfarpar sy’n cynhyrchu sain yn y cerbyd ac eithrio at ddiben anfon neu dderbyn negeseuon mewn cysylltiad â gweithrediad y cerbyd

(g) yn gyrru gyda dyledus ofal ac ystyriaeth i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd ac i gerddwyr ac yn benodol ni fyddant yn defnyddio ffôn symudol cledr llaw wrth yrru;

(h) yn ufuddhau i bob Gorchymyn Rheoli Traffig a chyfarwyddiadau traffig ar bob adeg;

(i) yn peidio â chludo mwy o deithwyr mewn cerbyd nag y mae wedi ei drwyddedu i'w cario.

(j) yn peidio â chludo, heb ganiatâd y llogwr, bobl eraill yn y cerbyd

(k) yn peidio ag yfed alcohol yn syth cyn gyrru neu ar unrhyw adeg wrth yrru na bod yng ngofal cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat;

(l) yn peidio â gyrru os ydynt wedi camddefnyddio cyffuriau cyfreithlon neu anghyfreithlon;

(m) yn peidio ag ysmygu ar unrhyw adeg mewn cerbyd trwyddedig (boed wrth gludo teithwyr neu beidio), nac yn caniatáu i deithwyr ysmygu mewn cerbyd trwyddedig;

(n) os oes mesurydd tacsi wedi ei osod yn y cerbyd, yn peidio â chanslo'r cofnodwr pris na'i guddio hyd nes i'r llogwr gael cyfle rhesymol i'w archwilio ac i dalu'r pris

(o) Ni fydd perchennog na gyrrwr cerbyd trwyddedig yn fwriadol nac mewn modd esgeulus yn achosi nac yn goddef i rif trwydded fod wedi ei guddio o olwg y cyhoedd tra bo'r cerbyd yn aros am deithwyr neu ar unrhyw adeg arall tra bo'r cerbyd wedi ei drwyddedu.

(p) Ni fydd perchennog na gyrrwr cerbyd Hacni yn ymyrryd â'r mesurydd tacsi yn y cerbyd, yn ymyryd â'r broses o'i osod nac â'r sêl sydd iddo, nac yn caniatáu i unrhyw berson ymyrryd yn y fath fodd.

(q) Ni fydd perchennog na gyrrwr Cerbyd Hacni, wrth aros am deithwyr, trwy weiddi, neu fel arall, yn taer-erfyn ar unrhyw un i hurio cerbyd o'r fath nac yn defnyddio gwasanaethau unrhyw berson i'r diben hwnnw

(r) Ni fydd gyrrwr yn gofyn gan unrhyw logwr na Cherbyd Hurio Preifat am bris sy'n fwy nag unrhyw bris y cytunwyd arno ymlaen llaw ar gyfer yr huriad hwnnw rhwng y llogwr a'r gweithredwr, neu, os oes mesurydd tacsi wedi ei osod yn y cerbyd ac na chytunwyd ymlaen llaw ar y pris, am bris sy'n fwy na'r pris a ddangosir ar wyneb y mesurydd tacsi

(s) yn parchu Swyddogion awdurdodedig wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau arferol

**NODER:**

**Bydd y Cyngor yn cymryd golwg ddifrifol iawn o unrhyw yrrwr y ceir eu bod wedi cael unrhyw alcohol neu wedi camddefnyddio unrhyw gyffuriau tra bônt yn gyfrifol am gerbyd trwyddedig**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Mawrth 2015 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Amodau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat - Newidiadau arfaethedig mewn perthynas â gwyro seddi ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Er mwyn i Aelodau ystyried a yw'n briodol i ddileu amod presennol sydd wedi'i gynnwys yn yr Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat (y llyfr Glas) yn ymwneud â gwyro seddi, yn dilyn ymgynghoriad.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhoi trwyddedau hurio preifat i ymgeiswyr sydd â cherbydau sy'n bodloni'r meini prawf trwyddedu a'r fanyleb cerbydau (fel yr amlinellir yn y Llyfr Glas). Mae swyddogion yn bwriadu cael gwared ar Amod 2.1 (h) sy'n ymwneud â seddau yn unol â chanllawiau diweddaraf yr Adran Gludiant ac yn dilyn pryderon a godwyd gan weithredwyr.

2.2 Dirprwywyd awdurdod i'r swyddogion i roi trwyddedau cerbyd yn unol â'r polisi cyfredol. Ar adegau, pan nad yw cerbyd yn bodloni'r fanyleb cerbyd, rhaid i Swyddogion gyfeirio'r mater i'r Aelodau.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd yr Aelodau'n cofio bod Swyddogion wedi cyflwyno adroddiad yn y cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr 2014, yn cynnig dileu Amod 2.1(h) sy'n ymwneud â cherbydau Hurio Preifat a mynediad i deithwyr. I atgoffa Aelodau, mae manylion am Amod 2.1 (f) a gyfeirir ato ar gael isod:

3.2 *“rhaid i ddyluniad a gwneuthuriad pob cerbyd ganiatáu i bob teithiwr gael mynediad clir a dirwystr at allanfa mewn argyfwng. (Ni fydd unrhyw gerbyd yn cael ei drwyddedu dan unrhyw amgylchiadau os yw'n ofynnol i*

*unrhyw deithiwr symud neu wyro unrhyw sedd i fynd i mewn neu allan o unrhyw sedd maent yn eistedd ynddi yn y cerbyd).'*

3.3 Yn y cyfarfod diwethaf, cyflwynodd swyddogion ganllawiau arfer gorau diweddaraf yr Adran Gludiant (DfT) i'r Aelodau sy'n ymwneud â cherbydau, ac, yn wahanol i ddogfennau canllaw blaenorol yr Adran Gludiant, nid oes bellach cyfeiriad at wyro seddi neu ofynion mynediad uniongyrchol i gerbydau trwyddedig.

3.4 Bydd Aelodau hefyd yn ymwybodol y bu nifer o achlysuron lle bod ceisiadau ar gyfer cerbydau, nad ydynt yn cyd-fynd â'r polisi presennol oherwydd materion mynediad, wedi cael eu cyfeirio at y Pwyllgor hwn, ac mae pob un ohonynt wedi cael eu cymeradwyo.

3.5 Os bydd Aelodau o blaid cymeradwyo dileu Amod 2.1 (f) mewn perthynas â cherbydau Hurio Preifat yn unig, byddai'n atal unrhyw oedi yn y dyfodol pan fo ceisiadau cerbydau hurio preifat yn cael eu hystyried.

3.6 Fel y soniwyd eisoes yn y cyfarfod diwethaf, ar hyn o bryd, mae'r Swyddogion yn cynnig bod yr Aelodau yn ystyried dileu amod 2.1(h) sy'n ymwneud â cherbydau hurio preifat yn unig, gydag ymchwiliad pellach ac ystyriaeth yn cael ei roi i gerbydau hacni, o ystyried yr effaith bosibl y gall dileu'r amod hwn ei gael ar y fflyd cerbydau hacni, er enghraifft, cerbydau mwy o faint yn cymryd mwy nag un lle ar safleoedd tacsis.

3.7 Os bydd Aelodau o blaid cymeradwyo dileu Amod 2.1 (h), byddai swyddogion yn adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol ar ôl cwblhau adolygiad trylwyr o'r fanyleb cerbydau hacni.

## 4. YMGYNGHORI

4.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig i ddiddymu amod 2.1 (h) gyda'r holl weithredwyr, perchnogion a gyrwyr cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, derbyniwyd dau sylw ac maent i'w gweld isod:

*"Byddwn yn croesawu cael gwared ar amod 2.1 (h) o'r llyfr amodau. Fel yr wyf wedi crybwyll o'r blaen os yw cerbyd yn gadael y ffatri gydag 8 sedd ynddo, byddai eisoes wedi cyflawni llawer o safonau diogelwch.*

*"mae'n hen bryd i hyn ddigwydd yn 2014, cafwyd 10 achos uchel lys lle mae gyrwyr wedi mynd â'r cynghorau i gyfraith, ac mae'r cynghorau wedi colli pob achos ar y sail bod y gwneuthurwr wedi gwario miliynau o bunnoedd yn datblygu cerbyd diogel a archwiliwyd gan Devra a'i gymeradwyo ar gyfer ei gynhyrchu a'i werthu fel cerbyd diogel, ond i*

*gynghorau lleol eu gwrthod gan ddweud eu bod yn anniogel ar gyfer cludo nifer penodol o deithwyr, does ond rhaid i chi edrych ar y rheolau tacsis a hurio preifat yn lleol ac mae'r rheoliadau gyda Chyngor Sir Conwy a Sir Ddinbych yn hollol wahanol, pam? Mae'r ddau yn dilyn yr un canllawiau ar gyfer cludiant cyhoeddus diogel. Os yw'r ddau gyngor yn uno yn y dyfodol, sut fyddant yn goresgyn mater y gwahanol ganllawiau? "*

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Dylai Aelodau gymeradwyo cael gwared ar amod 2.1 (h) sydd wedi'i gynnwyd yn yr amodau cerbydau hacni a hurio preifat (y llyfr glas) ar unwaith.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Mawrth 2015 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Swyddog Trwyddedu licensing@denbighshire.gov.uk01824 706451 |
| **TESTUN:** | Adolygiad o Bolisi Sefydliad Rhyw |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Rhoi gwybod i'r Aelodau am newidiadau i'r drefn sy'n awdurdodi trwyddedu safleoedd sy'n darparu adloniant rhywiol.

Gofyn i Aelodau ystyried a yw newid i'r Polisi Sefydliad Rhyw presennol yn angenrheidiol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trwyddedu sefydliadau rhyw gan awdurdodau lleol. Yng nghyd-destun y Ddeddf, mae "sefydliad rhyw" yn golygu sinema rhyw, sefydliad cyfarfyddiad rhyw neu siop ryw.

Yn y Panel Trwyddedu a gynhaliwyd ar 19 Medi 2001, penderfynodd yr Aelodau fabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn ffurfiol gan ddod i rym ar 19 Tachwedd 2001.

Mae Adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 yn ailddosbarthu clybiau glin-ddawnsio fel lleoliadau adloniant rhywiol ac mae’n rhoi pŵer i awdurdodau lleol reoleiddio’r fath leoliadau â sefydliadau rhyw o dan Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

## 3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

## 4. CEFNDIR

4.1 Pan fabwysiadwyd Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn wreiddiol, penderfynodd yr Aelodau y dylid ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun, gan ystyried meini prawf penodol a oedd yn cynnwys ardal y safle, yr oriau agor, ac ati

4.2 Ers 2005, mae ceisiadau am glybiau glin-ddawnsio wedi bod yn drwyddedadwy o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Fodd bynnag, mae canlyniadau ymgynghoriad gydag awdurdodau lleol yn 2008 wedi amlygu pryderon na roddodd y ddeddfwriaeth hon ddigon o bwerau i gymunedau reoli lle cafodd clybiau glin-ddawnsio eu sefydlu. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon o'r fath, cafodd adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd ei gyflwyno yn 2010.

4.3 Nid yw'r Ddeddf Trwyddedu yn caniatáu i wrthwynebiadau gael eu gwneud ar y fath sail â nifer o safleoedd yn yr ardal, addasrwydd adeilad i ddarparu gweithgareddau o'r fath neu gymeriad posibl yr ardal.

4.4 Mae adran 27 yn rhoi mwy o bwerau i awdurdodau lleol reoli nifer a lleoliad y clybiau glin-ddawnsio a lleoliadau tebyg. Nid yw'r pwerau hyn yn orfodol a byddant ond yn berthnasol lle maent wedi cael eu mabwysiadu'n benodol. Lle cânt eu mabwysiadu, bydd y darpariaethau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i wrthod cais ar sail ehangach na'r rhai a ganiateir o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, gan roi mwy o lais i bobl leol dros reoleiddio clybiau glin-ddawnsio lleoliadau tebyg yn eu hardal.

4.5 Mae adran 27 yn nodi ystyr "lleoliad adloniant rhywiol" fel "*unrhyw safle lle darperir adloniant perthnasol o flaen cynulleidfa fyw ar gyfer elw ariannol y trefnydd neu'r diddanwr".* Caiff "adloniant perthnasol" ei ddiffinio fel *"unrhyw berfformiad byw neu arddangosfa fyw o noethni y mae'n rhaid cymryd yn ganiataol, gan anwybyddu elw ariannol, ei fod yn cael ei ddarparu'n unig er mwyn ysgogi unrhyw aelod o'r gynulleidfa yn rhywiol (p'un ai yn llafar neu fel arall)".*

4.6 Er y dylid cymryd pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun, byddai'r diffiniad o adloniant perthnasol yn debygol o gyfeirio at y mathau o adloniant canlynol:

- Glin-ddawnsio

- Dawnsio Polyn
- Dawnsio ar Fwrdd
- Sioeau Stripio
- Sioeau Sbecian
- Sioeau Rhyw Byw

**5.** **YMGYNGHORI**

5.1 Os bydd Aelodau o blaid mabwysiadu darpariaethau adran 27, bydd angen ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus cyn ei weithredu.

**6.** **GOBLYGIADAU COST**

6.1 Os bydd y diwygiadau a wnaed gan adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd yn cael eu mabwysiadu, bydd angen trwyddedu safleoedd lle mae gweithgareddau trwyddedadwy fel y diffinnir gan Ddeddf Trwyddedu 2003 yn digwydd o dan y Ddeddf honno o hyd. Mae hyn yn golygu y bydd y mwyafrif helaeth o glybiau glin-ddawnsio neu leoliadau tebyg yn gofyn am drwydded lleoliad adloniant rhywiol a Thrwydded Safle.

**7.** **GOBLYGIADAU AR FEYSYDD POLISI ERAILL**

Mae Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried materion trosedd ac anrhefn wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â thrwyddedu. Wrth ystyried y mater hwn, bydd yr Aelodau'n dymuno ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys goblygiadau yn ymwneud â'r posibilrwydd y bydd y penderfyniad yn effeithio ar faterion trosedd ac anrhefn yn yr ardal.

**8.** **YSTYRIAETH**

**8.1** Efallai y bydd yr Aelodau'n ystyried y pwyntiau canlynol wrth benderfynu:

- Er nad oes unrhyw broblem gyda'r math hwn o safle yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd, gall Aelodau ystyried mabwysiadu'r pwerau hyn fel mesur ataliol ar gyfer unrhyw safle yn y dyfodol.
- Os bydd Aelodau yn dewis peidio â mabwysiadu'r pwerau hyn, mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i ddibynnu'n llwyr ar Ddeddf Trwyddedu 2003 i reoli safleoedd o'r fath
- Mae'r Ddeddf Trwyddedu ond yn caniatáu sylwadau i gael eu gwneud sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r amcanion trwyddedu, sef:

- atal trosedd ac anhrefn
- diogelwch y cyhoedd
- atal niwsans cyhoeddus
- amddiffyn plant rhag niwed

**9. ARGYMHELLIAD**

**9.1** Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad hwn, gall aelodau benderfynu gofyn i swyddogion lunio Polisi Sefydliad Rhyw diwygiedig drafft sy'n addas at y diben, i'w gyflwyno iddynt mewn cyfarfod yn y dyfodol, cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

**9.2** Bod yr Aelodau'n ystyried mabwysiadu'r darpariaethau yn adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009, darpariaethau o'r fath i gael eu hymgorffori o fewn y Polisi Sefydliad Rhyw diwygiedig drafft.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Mawrth 2015 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd 01824 706066 |
| **TESTUN:** | Adolygiad o Bolisi Masnachu ar y Stryd |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Er mwyn i Aelodau ystyried y drefn bresennol o ran masnachu ar y stryd, anawsterau presennol â'r drefn a gwelliannau a awgrymir i reoleiddio a chefnogi masnachu ar y stryd yn well yn y Sir.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Ceisio barn Aelodau am y drefn bresennol o ran masnachu ar y stryd a cheisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar bolisi masnachu ar y stryd newydd.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn diffinio masnachu ar y stryd fel gwerthu, datgelu neu gynnig nwyddau ar werth mewn stryd. Cafodd Rhan berthnasol y Ddeddf ei hail-fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mehefin 2002. Mae'r diffiniad o "stryd" yn eang ac mae'n cynnwys unrhyw ffordd, troedffordd, traeth neu ardal arall y mae gan y cyhoedd fynediad iddi heb dalu a meysydd gwasanaeth fel y diffinnir dan Adran 329 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

3.2 Mae mathau penodol o fasnachu wedi'u heithrio yn gyfreithiol o'r angen i gael caniatâd masnachu ar y stryd neu yn cael eu rheoleiddio drwy ddulliau neu awdurdodau eraill, maent yn cynnwys:

- Masnachu gan berson sy'n gweithredu fel Pedler dan Awdurdod tystysgrif pedler a roddwyd, o dan Ddeddf Bedleriaid 1871, gan unrhyw Awdurdod Heddlu

- Masnachu gan werthwr newyddion, yn gwerthu papurau newydd a chyfnodolion (mae *The Big Issue* yn dod o fewn y categori hwn)

- Masnachu ar safle a ddefnyddir fel gorsaf betrol neu ar safle a ddefnyddir fel siop neu mewn stryd gyfagos i'r safle a ddefnyddir ac fel rhan o'r busnes neu'r siop (yn amodol ar reoliadau priffyrdd)

- Masnachu a wneir fel dosbarthwr: er enghraifft dyn llaeth a fyddai'n cael ei ddiffinio fel masnachwr gyda chwsmeriaid penodedig, llwybr penodedig ac sy'n dosbarthu yn ôl archebion. (Ni fydd faniau hufen iâ yn y categori hwn a bydd disgwyl iddynt gael caniatâd.)

- Unrhyw fasnachu a wneir ar farchnad neu ffair a weithredir o dan siarter neu gan reoliadau naill ai'n uniongyrchol gan Gyngor neu gan asiant trydydd parti sy'n gweithredu ar ran Cyngor.

3.3 Mae'r broses ymgeisio bresennol yn dirprwyo'r gwaith o roi pob caniatâd Masnachu ar y Stryd i Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Sir Ddinbych.

3.4 Mae gorfodi masnachu ar y stryd yn y Sir wedi ei wneud yn fwy anodd gan nad oes unrhyw Bolisi Masnachu ar y Stryd clir wedi'i gyhoeddi. Mae penderfyniadau blaenorol y Pwyllgor (Atodiad A), ynghyd â chanllawiau gweithredol y Tîm Trwyddedu wedi gwasanaethu fel arfer a pholisi'r Cyngor.

3.5 Mae'r Canllawiau Gweithredol presennol yn nodi'r safonau ar gyfer penderfynu ar geisiadau am weithgareddau masnachu ar y stryd ar gyfer Sir Ddinbych gyfan, a'u gorfodi.

3.6 Mae angen i unrhyw un sy'n dymuno masnachu ar strydoedd yn y Sir wneud cais am ganiatâd gan yr Awdurdod Trwyddedu. Mae hyn oherwydd bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi dynodi pob stryd yn Sir Ddinbych fel "Strydoedd â Chaniatâd" at ddibenion masnachu ar y stryd.

3.7 Eithriad i hyn yw bod y strydoedd yng Nghanol Tref y Rhyl a Phrestatyn ac o'u hamgylch wedi eu dynodi fel "Strydoedd Gwaharddedig" lle nad yw masnachu yn cael ei ganiatáu o gwbl.

3.8 Nid yw Cefnffyrdd yn dod o dan reolaeth Cyngor Sir Ddinbych at ddibenion masnachu ar y stryd. Mae'r rhain o dan reolaeth Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru.

3.9 Rydym yn cynnig y dylai polisi masnachu ar y stryd gael ei gyflwyno sy'n nodi'n glir safiad yr Awdurdod ar fasnachu ar y stryd. Dylid nodi bod Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn drafftio deddfwriaeth a allai effeithio ar reoleiddio masnachu ar y stryd hefyd. Felly, bydd unrhyw bolisi yn y dyfodol yn ystyried unrhyw ofynion deddfwriaethol newydd wrth ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol hefyd.

3.10 Rydym hefyd yn ceisio barn yr Aelodau ar y dirprwyaethau ar gyfer penderfynu ar geisiadau masnachu ar y stryd ac yn cynnig newidiadau iddynt. Gallai gwaith adolygu a rhoi ceisiadau sy'n cwrdd ag unrhyw bolisi newydd gael ei ddirprwyo i'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, gyda dim ond ceisiadau mwy dadleuol yn cael eu codi â Phennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Sir Ddinbych neu'r Pwyllgor Trwyddedu llawn.

3.11 Pe bai Aelodau o blaid adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd efallai y byddant am ofyn i Swyddogion adolygu’r holl ffioedd a thaliadau yn llawn er mwyn darparu strwythur ffioedd clir ar gyfer pob agwedd ar fasnachu ar y stryd a gwmpesir gan y polisi arfaethedig.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod Aelodau'n awdurdodi Swyddogion i ddrafftio Polisi Masnachu ar y Stryd sy'n addas at y diben.

4.2 Pe bai Aelodau o blaid adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd, efallai y byddant am ystyried enwebu Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu i gysylltu â Swyddogion tra mae'r polisi drafft yn cael ei ddatblygu ac awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw ymgynghori angenrheidiol cyn cyflwyno Polisi Masnachu ar y Stryd arfaethedig i Aelodau.

**Atodiad A**

| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| 6 Mehefin 2002 | Ystyried ail-fabwysiadu rhan 3, Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y mae'n ymwneud â masnachu ar y stryd, a thrwy hynny gryfhau sefyllfa gyfreithiol y Cyngor wrth orfodi darpariaethau'r Ddeddf. | • Bod Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar y cyd â'r swyddogion perthnasol, yn cael awdurdod i ail-fabwysiadu Rhan 3, Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 sy'n ymwneud â masnachu ar y stryd ar gyfer y Sir gyfan. |
| 9 Medi 2002 | Ystyried diwygio polisi presennol y Cyngor o ran masnachu ar y stryd yn y Rhyl | • ar yr amod nad oes sylwadau anffafriol mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus gofynnol, bod y strydoedd canlynol yn y Rhyl yn cael eu dynodi fel strydoedd "â chaniatâd" at ddibenion Rhan III, Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 sy'n ymwneud â masnachu ar y stryd, yn weithredol o 5 Tachwedd 2002:-<br>• Stryd Fawr - rhan<br>• Sussex Street - rhan<br>• Market Street – rhan<br>• Rhodfa'r Dwyrain - rhan<br>• Promenâd y Dwyrain - rhan<br>• Rhodfa'r Gorllewin – rhan<br>• Promenâd y Gorllewin - rhan<br>• bydd masnachwyr yn cael caniatâd i fasnachu yn y strydoedd "â chaniatâd" fel y nodir uchod trwy ganiatâd ymlaen llaw gan y cyngor yn amodol ar delerau ac amodau penodol;<br>• ni fydd ceisiadau am drwyddedau masnachwyr ar y stryd yn cael eu rhoi i unrhyw fasnachwr a fyddai'n gwerthu unrhyw nwyddau neu eitemau yr ystyrir eu bod mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r mannau adwerthu lleol; |

| | | |
|---|---|---|
| | | • bod Pennaeth y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a Rheoleiddio yn cael pwerau dirprwyedig i ymdrin â cheisiadau am drwyddedau masnachwyr ar y stryd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y pwyllgor, a<br>• bod y swyddogion yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y pwyllgor gyda manylion y goblygiadau a'r systemau sydd i'w gweithredu wrth weinyddu'r gweithdrefnau statudol ar gyfer rhoi a gwrthod ceisiadau am ganiatâd i fasnachu ynghyd â chynllun safle yn nodi'r rhannau penodol o'r strydoedd hynny a ddynodwyd fel strydoedd â chaniatâd. |
| 5 Tachwedd 2002 | Adrodd ar y goblygiadau a'r systemau sydd i'w gweithredu wrth weinyddu'r penderfyniad i ddynodi strydoedd yn y Rhyl fel strydoedd "â chaniatâd" at ddibenion Masnachu ar y Stryd | • yn amodol ar gynnwys y ffaith fod sefydliadau elusennol wedi eu heithrio rhag talu'r ffi am ganiatâd masnachu ar y stryd, bod y system ganiatâd fel a amlinellwyd yn adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a Rheoleiddio yn cael ei chymeradwyo |
| 15 Mawrth 2011 | Cyflwyno newidiadau i'r ffordd y mae masnachu ar y stryd yn cael ei reoleiddio o fewn Sir Ddinbych | • bod pob stryd yn Sir Ddinbych yn cael ei dynodi yn stryd â chaniatâd, ac eithrio'r rhai sydd eisoes wedi'u nodi fel strydoedd gwaharddedig cyn belled â nad oes gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, a<br>• bod y ffioedd yn adlewyrchu yn agosach y gwaith sydd ei angen i roi trwyddedau, rheoleiddio a gorfodi o ran masnachu ar y stryd, fel y nodir yn y strwythur ffioedd a fabwysiadwyd gan CBS Conwy |
| 8 Mehefin 2011 | Ystyried diwygio polisi presennol y Cyngor o ran masnachu ar y stryd o fewn Sir Ddinbych gyfan<br>Penderfynu ar ffioedd ar gyfer rhoi caniatâd i fasnach ar y stryd | • o 1 Awst 2011, bod pob stryd yn Sir Ddinbych yn cael ei dynodi yn stryd â chaniatâd, ac eithrio'r rhai sydd eisoes wedi'u nodi fel strydoedd gwaharddedig;<br>• bod rhybudd o'r penderfyniad uchod yn cael ei gyhoeddi mewn papur newydd am ddwy wythnos yn olynol, a<br>• bod y ffioedd ar gyfer rhoi Caniatâd Masnachu ar y Stryd fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad ac fel a atgynhyrchir isod yn cael eu mabwysiadu -<br>- Trwydded 1 diwrnod £50 |

| | | |
|---|---|---|
| | | - Trwydded 1 wythnos £150<br>- Trwydded 1 mis £225<br>- Trwydded 3 mis £650<br>- Trwydded 6 mis £1200<br>- Trwydded Flynyddol £2000 |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Mawrth 2015 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 – Diweddariad ar y polisi arfaethedig |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Diweddaru Aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran paratoi Polisi Delwyr Metel Sgrap.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol eu bod wedi cytuno, o fewn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, ystyried polisi Cymru Gyfan ar gyfer cyfundrefn drwyddedu Delwyr Metel Sgrap.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol o dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013 dros drwyddedu, cydymffurfio a gorfodi mewn perthynas â delwyr metel sgrap.

3.2 Mae'r Ddeddf yn rhagnodol o ran anghenion gwneud cais ond nid o ran y broses. Nid yw darparu dogfen bolisi yn ofyniad statudol.

3.3 Mae darparu polisi a chanllawiau yn rhoi syniad i ymgeiswyr ac asiantaethau eraill o ddisgwyliadau'r awdurdod trwyddedu. Mi fydd yn gymorth iddynt i ddeall yr anghenion statudol, ac wrth gyflwyno ceisiadau cyflawn a manwl gywir, ac felly'n osgoi gwaith ac oedi diangen.

3.4 Mae cynrychiolwyr o'r Panel Arbenigol Trwyddedu (LEP) wedi bod yn gweithio ar bolisi Cymru Gyfan ac fe gyflwynwyd fersiwn terfynol o'r polisi i'r Panel ar 21 Ionawr 2015. Cytunwyd i anfon hwn at bob awdurdod trwyddedu yng Nghymru er mwyn derbyn eu sylwadau.

3.5 Y gobaith yw y bydd modd i swyddogion gyflwyno'r polisi Cymru Gyfan arfaethedig i'r Aelodau mewn cyfarfod yn ddiweddarach yn y flwyddyn, unwaith mae'r fersiwn terfynol wedi'i gymeradwyo gan yr LEP ar 22 Ebrill 2015.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Dylai Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

**ADRODDIAD I'R: PWYLLGOR TRWYDDEDU**

**DYDDIAD: Mawrth 2015**

**ADRODDIAD GAN: PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**TESTUN: RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2015**

| DYDDIAD | ADRODDIAD | SYLW |
|---|---|---|
| Mawrth 2015 | Adolygu Polisi Masnachu ar y Stryd | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried a chymeradwyo fod y Swyddogion yn ymgynghori â'r partïon â diddordeb |
| | Polisi Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 | Adroddiad i'r Aelodau er mwyn cymeradwyo Polisi arfaethedig Gogledd Cymru. |
| | Adnewyddu Sefydliad Rhyw | Adroddiad i'r Aelodau i ystyried adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw cyfredol |
| | Adolygu Polisi Sefydliad Rhyw Cyfredol | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried |
| | Polisi Cod Gwisg Gyrwyr | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried yn dilyn ymgynghori |
| | Polisi Cod Ymarfer Da | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried yn dilyn ymgynghori |
| Mehefin 2015 | Adolygu Polisi Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat cyfredol yn ymwneud â Cherbydau | Adroddiad i'r Aelodau i ystyried a chymeradwyo diwygiadau arfaethedig i'r polisi |
| Medi 2015 | Adolygu Polisi Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat cyfredol yn ymwneud â Gweithredwyr | Adroddiad i'r Aelodau i ystyried a chymeradwyo diwygiadau arfaethedig i'r polisi |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag